


# MAPIO LLINELL SYLFAEN CADERNID ECOSYSTEMAU LLEOL I ABERTAWE

## ADRODDIAD PROSIECT



 **SEWBRc**  
SOUTH EAST WALES BIODIVERSITY RECORDS CENTRE  
CANOLFAN GOFNODION BIOAMRYWIAETH DE DDWYRAIN CYMRU

0 2.5 5 7.5 10 km

Adam Rowe, David Slade, Rebecca Wright-Davies, Amy Hicks  
**Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBRc)**

**31 Mawrth 2022**



**Comisiynwyd gan:**



**TABL CYNNWYS**

<b>CRYNODEB GWEITHREDOL.....</b>	<b>4</b>
<b>1. CYFLWYNIAD .....</b>	<b>5</b>
1.1. Cefndir ac Amcanion y Prosiect .....	5
1.1.1. Prosiect Peilot Abertawe.....	5
1.1.2. Prosiect Mapio Rhwydweithiau Ecolegol Bannau Brycheiniog – “Prosiect BBNP” .....	6
<b>2. METHODOLEG Y PROSIECT .....</b>	<b>6</b>
2.1. Ymchwil Cychwynnol a Chyd-destun Polisi.....	6
2.2. Cadernid Ecosystemau a Fframwaith DECCA.....	6
2.3. Yr Asesiad Cadernid Ecosystemau Trefol .....	7
2.4. Prosiect CuRve .....	7
2.5. Amserlen a Gweithgareddau'r Prosiect.....	9
2.6. Ystyriaeth o Raddfeydd .....	10
2.7. Dethol Ffactorau ar gyfer Mapio.....	10
2.8. Creu Mapiau Cadernid Ecosystemau a Phriodoleddau Cyfunol.....	12
<b>3. DISGRIFIADAU FFACTOR A MAPIAU .....</b>	<b>13</b>
3.1. Nodiadau ar ddehongli mapiau .....	13
3.2. Ffactorau wedi'u Cwblhau .....	13
D1. AMRYWIAETH: Cyfoeth Rhywogaethau .....	13
D2. AMRYWIAETH: Cyfoeth Cynefinoedd .....	15
D3. AMRYWIAETH: Amrywiaeth Strwythurol (Garwder) .....	17
E1. EHANGDER: Maint y Clytiau Cynefin Lled-naturiol.....	19
CD1. CYFLWR: Cyflwr Safleoedd Statudol .....	21
CD2. CYFLWR: Rhywogaethau Estron Goresgynnol.....	23
CD3. CYFLWR: Tir mewn Rheolaeth Gadarnhaol ar gyfer Bioamrywiaeth.....	25
CD4. CYFLWR: Ansawdd Amgylcheddol Ehangach (Dŵr, Aer a Llygredd Golau) .....	27
CD5. CYFLWR: Rhywogaeth Dangosydd Cynefin.....	29
Ffigur 10: CD5. CYFLWR: Map ffactor Rhywogaeth Dangosydd Cynefin .....	30
CV1. CYSYLLTEDD: Rhwydweithiau Ecolegol.....	31
CV2. CYSYLLTEDD: Hyd Priodoledd Llinol.....	33
<b>4. CANLYNIADAU.....</b>	<b>35</b>
4.1. Mapiau Priodoleddau Cyfunol.....	35
4.1.1. D - PRIODOLEDD AMRYWIAETH CYFUNOL.....	35
4.1.2. E - PRIODOLEDD EHANGDER CYFUNOL.....	37
4.1.3. CD - PRIODOLEDD CYFLWR CYFUNOL.....	39
4.1.4. CV - PRIODOLEDD CYSYLLTEDD CYFUNOL.....	41
4.2. CADERNID ECOSYSTEM CYFFREDINOL .....	43
4.3. Sut i ryngweithio â'r allbynnau wedi'u mapio.....	45
<b>5. CASGLIADAU .....</b>	<b>45</b>

<b>ATODIAD 1 - Y CAIS PROSIECT .....</b>	<b>47</b>
<b>ATODIAD 2 - SEFYDLIADAU AC UNIGOLION Y CYSYLLTWYD Â NHW.....</b>	<b>49</b>
<b>ATODIAD 3 - TIR MEWN RHEOLAETH GADARNHAOL AR GYFER DIFFINIADAU CATEGORI BIOAMRYWIAETH .....</b>	<b>51</b>

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r term "cadernid ecosystemau" yn cael ei wreiddio fwyfwy ym mholisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Dibenion y prosiect hwn yw ceisio helpu ymarferwyr defnydd tir a bioamrywiaeth i gael gwell dealltwriaeth o'r term cadernid ecosystemau, dyfeisio a chyflwyno methodoleg ar gyfer cynhyrchu mapiau cydraniad uchel ar gyfer cadernid ecosystemau a chaniatáu i Gyngor Abertawe ddangos eu bod yn ystyried nid yn unig bioamrywiaeth, ond hefyd gadernid ecosystemau, wrth wneud eu penderfyniadau a thrwy hynny eu helpu i gyflawni eu dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ar ôl ystyried y gwaith mapio cadernid ecosystemau presennol a wnaed gan SEWBRc, nodwyd cyfres o **ffactorau** a allai weithredu fel procsi defnyddiol ar gyfer mesur a mapio pedair **priodoledd** allweddol cadernid ecosystemau (Amrywiaeth, Ehangder, Cyflwr a Chysylltedd). Casglwyd gwybodaeth ar gyfer pob ffactor a mireiniwyd y dulliau, gan arwain at set derfynol o 11 ffactor a fapiwyd, ac a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal â'r 11 map ffactor, cynhyrchwyd 'mapiau priodoleddau cyfun' ar gyfer pob un o'r pedair priodoledd allweddol ac yn olaf cynhyrchwyd map "Cadernid Ecosystem Cyffredinol".

Gwneir awgrymiadau ar gyfer sut i ddefnyddio allbynnau mapiau'r prosiect, gan gynnwys nodi meysydd o gyfleoedd i adfer neu ail-greu cynefinoedd er mwyn adeiladu rhwydwaith adfer natur lleol ac i wella cadernid ecosystemau ymhellach.

Gan fod dulliau ar gyfer mapio cadernid ecosystemau ar lefel leol yn dal yn eu dyddiau cynnar, y gobaith yw y bydd adborth yn cael ei dderbyn ar y dulliau a ddefnyddiwyd, fel y gellir eu mireinio a'u gwella, naill ai ar gyfer iteriad o'r gwaith hwn yn y dyfodol i ardal Cyngor Abertawe, neu ar gyfer prosiectau tebyg mewn rhannau eraill o Gymru.

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1. Cefndir ac Amcanion y Prosiect

Comisiynwyd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBreC) ym mis Medi 2021 gan Gyngor Abertawe (y Tîm Cadwraeth Natur ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr yn benodol) i gynnal prosiect i gynhyrchu map o gadernid ecosystemau ar gyfer ardal Cyngor Abertawe.

Nod y prosiect hwn yw darparu map cadernid ecosystem cynhwysfawr ar gyfer holl ardal Cyngor Abertawe (a chlustogfa o 500 metr<sup>1</sup>) y gellid ei ddefnyddio i lywio amrywiaeth o faterion gan gynnwys:

- nodi cyfleoedd i ddatblygu rhwydweithiau adfer natur a chynyddu cadernid ecosystemau trwy adfer, ail-greu a chreu cynefinoedd;
- helpu i hybu dealltwriaeth ehangach o ystyr cadernid ecosystemau ar lawr gwlad ar lefel leol;
- lleoliad ac effaith cadernid ecosystemau tir a neilltuwyd yng nghynllun datblygu strategol Cyngor Abertawe; ac
- effeithiolrwydd y gyfres o Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (a dynodiadau eraill) o ran gwarchod y tir y nodwyd ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf at gadernid ecosystemau.

Atodir y cynnig gwreiddiol y prosiect yn Atodiad 1.

Er mwyn deall cefndir a chyd-destun y prosiect hwn yn llawn, mae'n bwysig ystyried dau brosiect blaenorol a gyflawnwyd gan SEWBreC.

#### 1.1.1. Prosiect Peilot Abertawe

Yn 2020, derbyniodd SEWBreC gyllid trwy brosiect Partneriaethau Natur Lleol Cymru (LNP Cymru) i redeg un o bedwar prosiect peilot rhanbarthol. Bwriad y prosiectau peilot hyn oedd:

*“Prosiectau arddangos lleol a yrrir gan dystiolaeth i osod blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Adfer Natur lleol ac i wneud y mwyaf o fudd y sylfaen dystiolaeth”.*

Ar ôl ceisio datganiadau o ddiddordeb yn gynnar yn 2020, cytunodd Bwrdd Prosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru ei fod yn ffafrio mynd i'r afael â'r rhan o gynnig Partneriaeth Natur Leol Abertawe sy'n ymwneud â mapio cadernid ecosystemau. Roedd y cynnig ar gyfer:

*“Asesiad o gadernid ecosystemau yn canolbwyntio ar ardal beilot lle mae'r pwysau datblygu gyda'r potensial mwyaf i danseilio cysylltedd a gwytnwch ecosystemau. I gynnwys nodi cynlluniau creu/gwella cynefinoedd posibl i wella cadernid e.e. trwy lenwi bylchau yn y coridorau cysylltedd ecolegol presennol”.*

Datblygwyd methodoleg i fapio procsïau ar gyfer priodoleddau allweddol cadernid ecosystemau a chyflwynwyd yr allbynnau wedi'u mapio a'r adroddiad dilynol<sup>2</sup> i Gyngor Abertawe ym mis Rhagfyr 2020. Ystyrir methodoleg a chanlyniadau Prosiect Peilot Abertawe ymhellach yn Adran 2 (isod).

<sup>1</sup> Defnyddiwyd clustogfa o 500m drwy gydol y prosiect, rhag ofn y byddai dylanwadau y tu allan i ardal yr astudiaeth yn effeithio ar ardal yr astudiaeth ei hun.

<sup>2</sup> Rowe, A., Slade, D., Wright-Davies, R. & Hicks, A. (2020) *Making sense of ecosystem resilience at the local level: A brief report on the Swansea Local Nature Partnership Ecosystem Resilience Mapping Pilot Project*. Heb ei gyhoeddi.

### 1.1.2. Prosiect Mapio Rhwydweithiau Ecolegol Bannau Brycheiniog – “Prosiect BBNP”

Prosiect arall a ddylanwadodd ar gomisiynu'r adroddiad presennol a'r fethodoleg a ddilynwyd oedd y prosiect ar y cyd a ddarparwyd gan SEWBReC a Chanolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ar ran PNL Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn ystod 2020/21.

Fe wnaeth y rhannau mapio cadernid ecosystemau o Brosiect PCBB fireinio a gwella ymhellach y dulliau a ddatblygwyd gyntaf ar gyfer Prosiect Peilot Abertawe, a chyfeirir atynt yn Adran 2 (isod). Cyflwynwyd allbynnau'r prosiect fel porth ar-lein ac adroddiad<sup>3</sup>.

## 2. METHODOLEG Y PROSIECT

### 2.1. Ymchwil Cychwynnol a Chyd-destun Polisi

Roedd gwaith cwmpasu cychwynnol ar gyfer hwn a phrosiectau mapio cadernid ecosystemau blaenorol yn cynnwys adolygiad helaeth o ddeunydd ar y rhyngwrwyd ac mewn ffynonellau cyhoeddus yn ymwneud â mapio cadernid ecosystemau.

Y cyd-destun polisi ar gyfer y gwaith hwn yw bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi “Cymru Gydnerth” fel un o'i saith nod llesiant. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno'r cysyniad o “reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy” (SMNR) fel ffordd o gynnal a gwella cadernid ecosystemau.

Mae'r cyd-destun polisi yn creu angen clir am wybodaeth ofodol ar gadernid ecosystemau, er mwyn galluogi ymarferwyr i gynnwys cysyniadau SMNR a chadernid ecosystemau yn eu penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol i awdurdodau cyhoeddus, megis Cyngor Abertawe, sydd â dyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau.

### 2.2. Cadernid Ecosystemau a Fframwaith DECCA

Ym Mhennod 4 yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)<sup>4</sup> (2016), gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yr ymgais gyntaf i amlinellu fframwaith i asesu cadernid ecosystemau yng Nghymru. Diffiniwyd Cadernid Ecosystemau fel “gallu ecosystemau i ddelio ag aflonyddwch, naill ai trwy eu gwrthsefyll, adfer ar ôl yr aflonyddwch, neu addasu iddynt, tra'n cadw eu gallu i ddarparu gwasanaethau a buddion nawr ac yn y dyfodol”.

Mae SoNaRR yn diffinio pum priodoledd cadernid ecosystemau (a gydnabyddir yn gyntaf fel blociau adeiladu cadernid yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), fel:

- Amrywiaeth
- Ehangder
- Cyflwr
- Cysylltedd
- Addasrwydd

<sup>3</sup> Slade, D., Rowe, A., Samari, Y., Russell, C., Wright-Davies, R. a Hicks, A. (2021) *Developing Habitat Networks and Ecosystem Resilience Mapping for the Brecon Beacons National Park Authority*. Heb ei gyhoeddi.

<sup>4</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru. 2016. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Adroddiad Technegol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r priodoleddau hyn, a elwir yn briodoleddau DECCA, yn darparu fframwaith syml ar gyfer ystyried cyflwr cadernid ecosystemau yng Nghymru a gellir eu cymhwyso'n eang ar draws prosesau, graddfeydd, cynefinoedd a defnyddiau tir. Mae'n bwysig cydnabod mai procsiau ar gyfer cadernid yn hytrach na mesurau uniongyrchol yw'r priodoleddau hyn. Gan fod 'addasrwydd' yn rhannol gyfystyr â 'chadernid' mae'n aml yn cael ei ollwng o ddadansoddiadau mwy diweddar, ac os felly cyfeirir at y priodoleddau fel DECC neu DECC(A).

### 2.3. Yr Asesiad Cadernid Ecosystemau Trefol

Ar ddechrau Prosiect Peilot Abertawe, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Adam Rowe o SEWBReC a Dan Ward (Cynghorydd Cadernid Ecosystemau yng Nghyfoeth Naturiol Cymru) a rannodd ei farn ar waith sy'n cael ei wneud o fewn CNC ar Asesiad Cadernid Ecosystemau Trefol (UERA). Roedd ffocws trefol y gwaith hwn yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth, fodd bynnag roedd cyrion trefol a chymeriad gwledig ardal yr astudiaeth beilot yn bennaf yn golygu nad oedd rhai o'r "priodoleddau" a ystyriwyd yn gwbl berthnasol i'r prosiect. O ystyried y gwaith hwn, lluniodd SEWBReC restr gychwynnol o fesurau procsi posibl o gadernid ecosystemau, gan gynnwys:

- **AMRYWIAETH: Cymedrig amrywiaeth adeiledd fesul llain werdd:** Gall ardaloedd â llai o amrywiaeth o ran strwythur (e.e. cae â glaswellt wedi'i dorri'n agos yn unig) gynnal llai o fioamrywiaeth ac maent yn llai gwydn nag ardaloedd â mwy o amrywiaeth o ran strwythur (e.e. glaswellt byr a hir, prysgwydd, coed ifanc a choed aeddfed mwy). *Dulliau/ffynonellau data posibl: LiDAR, delweddau o'r awyr neu arolwg tir.*
- **EHANGDER: Maint y lleiniau cynefin / manau gwyrdd:** Mae maint y llain yn cael effaith sylweddol ar botensial bioamrywiaeth, gyda llawer o rywogaethau â lleiafswm maint cynefin sydd ei angen i gynnal poblogaeth. *Dulliau/ffynonellau data posibl: Dadansoddiad GIS o ddata cynefinoedd - maint darnau o gynefin lled-naturiol (gan gynnwys dŵr) fesul ardal benodol.*
- **CYFLWR: Cyfran o safleoedd statudol ac anstatudol:** Cyfran o seilwaith gwyrdd sy'n cael ei gydnabod fel un o werth natur uchel ac sy'n cael ei warchod rhag datblygiad. *Dulliau/ffynonellau data posibl: Data dynodiad (trwy Lle neu eisoes yn cael ei gadw yn SEWBReC).*
- **CYFLWR: Rhywogaethau ymledol:** Graddfa effaith INNS ar fioamrywiaeth gynhenid. *Dulliau/ffynonellau data posibl: data SEWBReC a Chyngor Abertawe.*

### 2.4. Prosiect CuRve

Ym mis Mawrth 2020, yn ystod camau cynnar y gwaith ar Brosiect Peilot Abertawe, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei Adroddiad Ymchwil Rhif 415, o'r enw: "Atlas mapiau Gwerth Cymharol Cyfredol (CuRve) ar gyfer cadernid ecosystemau yng Nghymru"<sup>5</sup>. Aeth Prosiect CuRve ati i archwilio dull DECCA o fapio cadernid ecosystemau.

I dreialu dull DECCA, dewiswyd 16 ffactor yn hysbysu'r pum priodoledd ar sail eu pwysigrwydd i'r Priodoledd yn ogystal ag argaeledd data:

#### AMRYWIAETH:

- Cyfran y tir o fewn SoDdGA
- Amrywiaeth topograffig
- Amrywiaeth cynefinoedd lled-naturiol.

<sup>5</sup> Naumann, E.-K., Medcalf, K., 2020. Current relative value (CuRve) map atlas for ecosystem resilience in Wales. Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif: 415, 88tt, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor

**EHANGDER:**

- Maint y cynefin lled-naturiol
- Deinameg darnau cynefin lled-naturiol.

**CYFLWR:**

- Pwysau ar ansawdd aer (allyriadau osôn ac amonia)
- Pwysau ar ansawdd aer (Asideiddio)
- Ansawdd dŵr
- Cyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Amrywiaeth rhywogaethau ymledol, anfrodorol
- Perygl o erydu pridd.

**CYSYLLTEDD:**

- Nifer y rhwydweithiau ecolegol arwahanol
- Hyd nodweddion cysylltiol
- Presenoldeb addasiadau i afonydd.

**ADDASRWYDD:**

- Cyfnod adfer cynefin


Gellid mapio pob un o'r ffactorau hyn drwy ddehongli a chyfuno setiau data presennol ac fe'u defnyddiwyd i lywio gwerth cadernid cymharol y sgwariau adrodd 1 km. Yna cyfunwyd yr holl ffactorau a oedd yn llywio un Priodoledd i greu map Priodoleddau, gan ddangos cadernid cymharol yn seiliedig ar bob un o'r pum priodoledd. Yn olaf, cyfunwyd y pum priodoledd yn un map cadernid cyffredinol.

Mae mapio cadernid ecosystemau CuRVE ar gael ar Borth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru CNC<sup>6</sup> drwy'r tab 'cadernid ecosystemau'. Mae pob 'ffactor' unigol yn cael ei fapio ar eglurder 1km<sup>2</sup> ac yna mae'r haenau hyn yn cael eu cyfuno i fapiau 'Priodoleddau' ac yn olaf yn haen 'Cadernid Ecosystem Cyffredinol CuRVE' gyda chadernid yn cael ei ddangos ar raddfa o 10-80 a gynrychiolir gan saith cyfwng lliw. Mae detholiad o'r CuRVE sy'n dangos arwynebedd bras ardal yr astudiaeth i'r prosiect peilot hwn i'w gweld isod, i ddangos brasder y data cydraniad 1km<sup>2</sup> wrth edrych ar y lefel leol.

---

<sup>6</sup> <https://smnr-nrw.hub.arcgis.com/apps/c7770d2881394c899123bae210afe370/explore>





**Ffigur 1: Detholiad yn dangos Cadernid Ecosystemau Cyffredinol CurVe ar gyfer ardal Abertawe**

## 2.5. Amserlen a Gweithgareddau'r Prosiect

Cytunwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r prosiect oedd 31/03/2022. Cynhaliwyd cyfarfod cychwyn prosiect (ar-lein) rhwng tîm prosiect SEWBReC a Chris Lindley a Deb Hill o Gyngor Abertawe (yn cynrychioli AHNE Gŵyr a'r Tîm Cadwraeth Natur, yn y drefn honno) ar 29/09/2021. Cytunwyd ar gyfres o ddyddiadau allweddol a cherrig milltir y prosiect, a phennwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd adolygu, gweithdy prosiect a chyfleoedd i wneud cyflwyniad ar y prosiect i PNL Abertawe.

Cynhaliwyd gweithdy prosiect rhithwir trwy Teams ar 04/11/2021. Hyrwyddwyd y gweithdy'n frwd i ddarpar randdeiliaid yn ystod yr wythnosau ymlaen llaw a daeth nifer dda ynghyd, gyda 21 o gyfranogwyr yn bresennol. Recordiwyd y digwyddiad hefyd, a rhannwyd y ddolen i sawl un arall nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Ceisiodd y gweithdy gynorthwyo ac ymgysylltu â nifer o agweddau ar y prosiect ac roedd wedi'i strwythuro fel a ganlyn.

- **Cefndir y prosiect, cyllid a nodau'r gweithdy**
- **Cyflwyniad i Fapio Cadernid Ecosystem** (Adam Rowe)
  - Cefndir a chyd-destun y prosiect presennol
- **Gofynion data** (David Slade)
  - Data cynefinoedd a rhywogaethau (gan gynnwys INNS)
  - Sut gallwch chi helpu i lenwi unrhyw fylchau data?
- **Tir mewn rheolaeth gadarnhaol** (Rebecca Wright-Davies):
  - Methodoleg ar gyfer adnabod Tir mewn Rheolaeth Gadarnhaol ar gyfer Bioamrywiaeth
  - Cais am fewnbwn gan y rhai sy'n adnabod yr ardal.
- **Trafodaeth agored** (Adam Rowe)
  - **Bylchau yn y data cynefinoedd a rhywogaethau (gan gynnwys INNS)**
    - A oes gennych chi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynefinoedd sy'n well na'r hyn sydd gennym ni ar hyn o bryd?

- A oes gennych chi ddata rhywogaeth (gan gynnwys INNS) y gwyddoch nad yw wedi'i rannu â SEWBRcC?
- A wyddoch chi am ffynonellau eraill nad ydym wedi cael mynediad iddynt?
  - **Ffynonellau gwybodaeth ar gyfer tir dan reolaeth gadarnhaol**
- Pwy sydd â'r wybodaeth sydd ei hangen arnom?
- Beth sydd gennych chi/ganddynt?
- Beth yw'r ffordd orau o'i gyflenwi i ni?
  - **Nodi bylchau mewn ymgysylltu a chwmpas**
- A oes unrhyw ffynonellau data posibl ar reolaeth gadarnhaol nad ydynt wedi'u crybwyll?
- A oes unrhyw fesurau procsi eraill o gyflwr y safle sydd heb eu crybwyll?
- Pwy sydd ar goll o'r trafodaethau hyn?
- Sut gellir mynd i'r afael â'r bylchau?
  - **Ardaloedd morol/arfordirol**
- Rydym yn ystyried cwmpas yr astudiaeth i fynd â ni at y Marc Distyll Cymedrig. Ydy hyn yn dderbyniol?
- Pa newidiadau i fethodoleg fyddai eu hangen i ymgorffori data morol?
  - **Cytuno ar ffyrdd ymlaen**
- Nodi a chofnodi camau gweithredu i symud y prosiect yn ei flaen
- Trafodaethau grŵp yn y dyfodol?
- Cynlluniau tymor hwy i adnewyddu'r mapiau cadernid ecosystemau?
- Defnydd posib o allbynnau'r prosiect gan y Cyngor, AHNE a phartneriaid y Bartneriaeth Natur Leol?
  - **Unrhyw gwestiynau pellach**

Rhoddyd fersiwn cryno o'r cyflwyniad gweithdy hwn hefyd yng nghyfarfod Partneriaeth Natur Leol Abertawe ar 09/12/2021. Sbardunodd y gweithdy a'r cyflwyniad PNL dilynol gryn dipyn o adborth a threfnwyd cyfarfodydd dilynol gyda nifer o sefydliadau ac unigolion allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

## 2.6. Ystyriaeth o Raddfeydd

Agwedd allweddol ar y prosiect hwn yn ogystal â phrosiectau blaenorol fu'r dymuniad i **ystyried priodoleddau cadernid ecosystemau mor fanwl â phosibl**, a thrwy hynny gynyddu ei werth fel arf i lywio a dylanwadu ar benderfyniadau lleol.

Er bod llawer o agweddau rhagorol ar adroddiad CuRVE, teimlwyd bod brasder y mapio 1km yn golygu mai i raddau bychain yn unig y gallai lywio penderfyniadau ar lefel leol, megis y rhai y mae angen i awdurdod cyhoeddus fel Cyngor Abertawe eu gwneud. Roedd y Cyngor, er enghraifft, yn dymuno ystyried gwybodaeth fanwl, eglur iawn ar gadernid ecosystemau i lywio penderfyniadau megis dyraniadau tir trwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol neu nodi Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddiogelu bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.

Gan ystyried y materion hyn, penderfynwyd y byddai Prosiect Peilot Abertawe ond yn ystyried data wrth fapio ffactorau unigol lle'r oedd yr eglurder data yn fwy manwl nag 1km. Lle'r oedd modd, ymgwymerwyd â mapio ar eglurder 10 metr neu fanylach. Yn dilyn hynny, yn ystod prosiect PCBB a phrosiect presennol Abertawe, cafodd data ansawdd aer (sydd ond ar gael ar eglurder 1km) ei gynnwys yn y dadansoddiad.

## 2.7. Dethol Ffactorau ar gyfer Mapio

Mae'r set o ffactorau a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect hwn yn cynrychioli cipolwg ar feddylfryd presennol SEWBRcC ar y mesurau procsi gorau ar gyfer cadernid ecosystemau. Mae'r rhain yn weddol debyg i'r set o ffactorau a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiect Peilot Abertawe,

ond mireiniwyd y dulliau a datblygwyd technegau newydd yn ystod Prosiect PCBB ac eto maent wedi'u mireinio'n sylweddol yn ystod gwaith ar y prosiect presennol.

Gwnaethpwyd y detholiad cychwynnol o ffactorau a ddatblygwyd ar gyfer Prosiect Peilot Abertawe ar ôl ystyried y ffactorau a ddatblygwyd yn CuRve ac a gynigiwyd ar gyfer Yr Aseiad Cadernid Ecosystemau Trefol. Roedd y ffactorau a ddewiswyd yn gymysgedd o'r rhai a ddeilliodd o, neu a ddylanwadwyd gan, ffactorau a ddefnyddiwyd yn yr asesiadau hyn (e.e. "amrywiaeth strwythurol" o UERA ac "effaith Rhywogaethau Estroon Goresgynnol" o CuRve ac UERA) yn ogystal â rhai ffactorau ychwanegol, megis "cyfoeth/ amrywiaeth cynefin a rhywogaethau" a "Thir mewn Rheolaeth Gadarnhaol ar gyfer Bioamrywiaeth" a oedd yn ffactorau newydd, yn seiliedig ar y syniadau gwreiddiol ynghylch mesurau procsi eraill a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer priodoleddau DECCA ac ystyriaeth o'r ffynonellau data oedd ar gael.

Datblygwyd y set ganlynol o ffactorau ar gyfer y prosiect presennol, fel mesurau procsi ar gyfer prif briodoleddau cadernid ecosystemau.

<b>Priodoledd</b>	<b>AMRYWIAETH</b>
<b>Ffactor</b>	<b>D1. Cyfoeth Rhywogaethau</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio rhywogaethau (gan ddefnyddio data SEWBRc/LERC Cymru) i ddangos dosbarthiad rhywogaethau yn ardal yr astudiaeth yn ogystal ag amrywiadau yn eu cyfoeth.
<b>Ffactor</b>	<b>D2. Cyfoeth Cynefinoedd†</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio cynefinoedd (gan ddefnyddio Cam 1 CNC a data arall a gasglwyd) i ddangos dosbarthiad cynefinoedd yn ardal yr astudiaeth yn ogystal ag amrywiadau o ran eu cyfoeth.

<b>Ffactor</b>	<b>D3. Amrywiaeth Strwythurol*</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio amrywiaeth strwythurol trwy ddefnyddio model tir digidol a data model arwyneb digidol a dadansoddiad dilynol o arwder a heterogenedd i nodi parthau ymyl sydd â'r amrywiaeth strwythurol uchaf.

<b>Priodoledd</b>	<b>EHANGDER</b>
<b>Ffactor</b>	<b>E1. Maint y Clytiau Cynefin Lled-naturiol</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddiad o Gam 1 a gwybodaeth arall am gynefinoedd presennol i fapio maint ac ehangder a/neu faint lleiniau cynefinoedd lled-naturiol.

<b>Priodoledd</b>	<b>CYFLWR</b>
<b>Ffactor</b>	<b>CD1. Cyflwr Priodoleddau Arbennig Safleoedd Statudol*</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio gwybodaeth sydd ar gael o'r newydd am gyflwr safle statudol.
<b>Ffactor</b>	<b>CD2. Rhywogaethau Estroon Goresgynnol</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio INNS (gan ddefnyddio data SEWBRc/LERC Cymru) i ddangos dosbarthiad INNS yn ardal yr astudiaeth yn ogystal ag amrywiadau o ran eu cyfoeth.
<b>Ffactor</b>	<b>CD3. Tir mewn Rheolaeth Gadarnhaol ar gyfer Bioamrywiaeth*</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio tir yr ystyrir ei fod mewn cyfundrefnau rheoli buddiol. Bydd tir yn cael ei ddsbarthu i dri chategori o reolaeth gadarnhaol debygol. Mae angen ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys trwy weithdy ar gamau cynnar y prosiect.
<b>Ffactor</b>	<b>CD4a. Ansawdd Dŵr</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio cyflwr dŵr daear a chyrff dŵr gan ddefnyddio data o asesiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2018).

<b>Ffactor</b>	<b>CD4b. Ansawdd Aer*</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio data ansawdd aer sydd ar gael trwy Lle.
<b>Ffactor</b>	<b>CD4c. Llygredd Golau*</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio llygredd golau gan ddefnyddio data o ddata arsylwi'r ddaear VIIRS.
<b>Ffactor</b>	<b>CD5. Rhywogaeth Dangosydd Cynefin</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio i ddangos cyd-ddigwyddiad cofnodion rhywogaethau dangosol cynefinoedd a'r cynefinoedd y maent yn cael eu cydnabod fel dangosyddion ar eu cyfer.

<b>Priodoledd</b>	<b>CYSYLLTEDD</b>
<b>Ffactor</b>	<b>CV1. Rhwydweithiau Ecolol</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddiad o haenau Cysylltedd Ecolol a gynhyrchwyd gan CNC i sgorio pob sgwâr adrodd yn ôl nifer yr haenau Cysylltedd Ecolol a oedd yn ei groestorri.
<b>Ffactor</b>	<b>CV2. Hyd Priodoledd Llinol†</b>
<b>Disgrifiad</b>	Dadansoddi a mapio nodweddion cynefin llinellol gyda photensial cysylltedd uchel (e.e. gwrychoedd ac afonydd).

\* Ffactorau sydd wedi'u gwella a'u mireinio'n sylweddol ers prosiect peilot Abertawe

† Ffactorau y mae'r data sydd ar gael ar eu cyfer yn wannach ers prosiect peilot Abertawe, oherwydd bod Cam 1 Synhwyro o Bell 2011 CNC wedi'i dynnu'n ôl.

Disgrifir methodolegau manwl ar gyfer creu Mapiau Ffactor yn Adran 3 (isod) a rhoddir mapiau enghreifftiol ar gyfer pob ffactor.

## 2.8. Creu Mapiau Cadernid Ecosystemau a Phriodoleddau Cyfunol

Yn dilyn cynhyrchu pob set o Fapiau Ffactor, datblygwyd Map Priodoleddau Cyfunol wedi ei ddatblygu ar gyfer pob un o briodoleddau DECC. Mae'r mapiau Priodoledd cyfunol hyn wedyn wedi'u cyfuno ymhellach i gynhyrchu Map Cadernid Ecosystem Cyffredinol ar gyfer ardal y prosiect.

Disgrifir y methodolegau manwl ar gyfer creu Mapiau Priodoleddau Cyfunol a Mapiau Cadernid Ecosystem Cyffredinol yn Adran 3 (isod) a rhoddir mapiau enghreifftiol ym mhob achos.

Mae holl fapiau Priodoleddau ffactor a chyfunol yn ogystal â map Cadernid Ecosystem Cyffredinol yn cael eu cyflwyno i Gyngor Abertawe mewn fformatau digidol a GIS addas ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

### 3. DISGRIFIADAU FFACTOR A MAPIAU

#### 3.1. Nodiadau ar ddehongli mapiau

O fewn pob un o'r mapiau a ddangosir ar y tudalennau canlynol, mae'r data wedi'i normaleiddio, gyda'r gwerth potensial isaf yn cael gwerth o sero a'r gwerth potensial uchaf yn cael 100. Mae'r mapiau'n cael eu harddangos mewn arddull gyson gyda'r gwerthoedd uchaf wedi'u lliwio'n goch tywyll, a dangosir y gwerthoedd isaf yn dryloyw.


#### 3.2. Ffactorau wedi'u Cwblhau

##### D1. AMRYWIAETH: Cyfoeth Rhywogaethau

Categori DECCA	AMRYWIAETH
Disgrifiad Gwreiddiol	Dadansoddi a mapio gwybodaeth bresennol am rywogaethau (gan ddefnyddio data LERC) i ddangos dosbarthiad rhywogaethau yn ardal yr astudiaeth yn ogystal ag amrywiadau yn eu cyfoeth/amrywiaeth.
Dull	Ar gyfer y ffactor hwn, cymerwyd nifer y rhywogaethau a gofnodwyd ym mhob cyfeirnod grid penodol a chynhyrchwyd cyfres o fapiau gwres (Amcangyfrif Dwysedd Cnewyllyn). Rhannwyd y data rhywogaethau yn grwpiau tacsonomig mawr, ac ar gyfer pob un, cynhyrchwyd dau fap gwres - un yn defnyddio'r holl gofnodion eglurder bras (1km), ac un gyda'r holl gofnodion eglurder manwl (mwy manwl gywir nag 1km). Yna cyfunwyd y ddwy set hyn o fapiau gwres ar gymhareb o 3:1 o blaid y data eglurder manwl.
Sylwadau	Mae'r ffactor hwn yn dibynnu ar y data rhywogaethau gorau sydd ar gael, ac mae'n annog cofnodi eglurder uchel, fel bod grwpiau (e.e. adar a phlanhigion) lle mae llawer o'r cofnodi'n cael ei wneud ar eglurder 1km yn cael eu cosbi. Yn yr un modd, gall y driniaeth hon effeithio'n andwyol ar safleoedd mawr lle bu llawer o gofnodi heb fod yn fanwl gywir.




**Ffigur 2: D1. AMRYWIAETH: Map ffactor Amrywiaeth Rhywogaeth**



**D2. AMRYWIAETH: Cyfoeth Cynefinoedd**

Categori DECCA	<b>AMRYWIAETH</b>
Disgrifiad Gwreiddiol	Dadansoddi a mapio gwybodaeth am gynefinoedd presennol (Cam 1 ac arall) i ddangos dosbarthiad cynefinoedd yn ardal yr astudiaeth yn ogystal ag amrywiadau yn eu cyfoeth/amrywiaeth.
Dull	Ar gyfer y ffactor hwn, defnyddiwyd haen cynefin Cam 1 (o CNC trwy Lle). Holltwyd yr haen, gydag un haen ar gyfer pob cynefin lled-naturiol a haen arall gyda'r holl gynefinoedd nad oeddent yn lled-naturiol. Ar gyfer pob sgwâr adrodd, adiwyd nifer y gwahanol fathau o gynefinoedd at ei gilydd i roi'r cyfoeth cyffredinol. Perfformiwyd y broses hon ddwywaith, unwaith ar eglurder 10m, yna eto ar eglurder 25m. Cyfunwyd pob set o haenau braster i ddangos lle'r oedd y mathau o gynefinoedd yn croestorri, a chyfunwyd y ddau allbwn hyn â'r haen 10m, o ystyried dwywaith pwysigrwydd yr un 25m.
Sylwadau	Roeddem wedi bwriadu gwneud defnydd o Gam 1 2015 a oedd yn seiliedig ar dechnoleg Arsylwi'r Ddaear, fel yr oeddem wedi'i wneud yn y prosiect peilot. Er y gwyddys fod problemau â hyn, roedd yn dal i ddangos amrywiadau yn y llystyfiant ar raddfa fwy manwl na Cham 1 o 1997. Yn anffodus, rhwystrodd materion trwyddedu y defnydd o'r set ddata hon. Yn lle hynny, defnyddiwyd haen 1997, ac felly roedd yr allbwn yn llai dramatig, er ei fod wedi'i ehangu gyda gwell gwybodaeth am rai safleoedd (yn enwedig y Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC)). Heb amheuaeth, mae'r ffactor hwn yn dibynnu ar y wybodaeth orau sydd ar gael am orchudd tir. Y gobaith yw y bydd datblygiadau mewn mapiau gorchudd tir synhwyraidd o bell yn sicrhau bod y rhain ar gael ar gyfer fersiynau o'r ffactor hwn yn y dyfodol.

**Ffigur 3: D2. AMRYWIAETH: Map ffactor Amrywiaeth Cynefin**






**D3. AMRYWIAETH: Amrywiaeth Strwythurol (Garwder)**

Categori DECCA	<b>AMRYWIAETH</b>
Disgrifiad Gwreiddiol	Gellir defnyddio data cynefinoedd, ynghyd â lluniau o'r awyr a data synhwyro o bell i amlygu amrywiadau lleol mewn amrywiaeth strwythurol. Gall ardaloedd â strwythur unffurf gynnal llai o fioamrywiaeth a bod yn llai gwydn nag ardaloedd â mwy o amrywiaeth o ran strwythur (e.e. mae mosaigau o gynefinoedd yn darparu llawer o gilfachau ecolegol).
Dulliau	<p>Y mewnbynau ar gyfer y dadansoddiad hwn oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y Model Tir Digidol (DTM) yn mesur wyneb y ddaear</li> <li>• y Model Arwyneb Digidol (DSM) yn mesur yr arwyneb uchaf</li> </ul> <p>Cyfrifwyd uchder llystyfiant trwy dynnu'r DTM o'r DSM, sy'n rhoi'r pellter rhwng y ddaear a'r arwyneb uchaf. Mae hyn yn cynnwys yr holl nodweddion, y mwyaf ohonynt oedd adeiladau felly mae'r rhain wedi'u tynnu o'r haen trwy ddefnyddio map factor Adeiladau Agored yr Arolwg Ordians trwy newid pob ardal sy'n adeiladau i sero. Yna cyfrifwyd Amrywiaeth Strwythurol gan ddefnyddio'r offeryn geobrosesu Mynegai Garwder Tir QGIS, sy'n mesur uchder un picsele o'i gymharu â'r rhai o'i gwmpas, sef mesur o anwastadrwydd uchder y llystyfiant.</p> <p>Cynhyrchwyd ail haen trwy ailsamplu'r haen ffynhonnell gan ddefnyddio hidlydd 6m, ac yna cafodd yr ardaloedd eu grwpio gyda'i gilydd i greu ardaloedd o lefelau tebyg o ran heterogenedd, a chyfrifwyd eu cyfartaledd.</p> <p>Crëwyd trydedd haen (ecotonau) trwy nodi'r ffiniau rhwng ardaloedd â strwythur gwahanol trwy gyfrifo'r llethr.</p> <p>Cyfunwyd yr haen homogenaidd a'r ecotonau wedyn i gynhyrchu'r map ffactor Amrywiaeth Strwythurol terfynol.</p> <p><i>Sylwer: Datblygwyd y fethodoleg hon ar gyfer SEWBRc gan Rhyan Law-Cooper.</i></p>
Sylwadau	<p>Datblygodd y ffactor hwn yn sylweddol ar ôl i staff SEWBRc drafod methodolegau posibl gyda Rhyan Law-Cooper. Mae'r haen canlyniadol yn pwysleisio'n gryf bwysigrwydd cynefinoedd mosaig ac ymylon cynefinoedd.</p> <p>Mae gan y DTM a'r DSM gwmpas da ond mae ardaloedd nad oes unrhyw wybodaeth amdanynt, ac felly ni wnaed asesiad yno. Tynnwyd adeiladau allan o'r asesiad, ond nid yw'r haen hon yn cyfateb yn berffaith i ddata LiDAR, naill ai oherwydd eglurder y LiDAR neu'r anghysondeb mewn amser rhwng y ddwy haen, gyda'r LiDAR yn hŷn ac o wahanol oedrannau. Mae hyn hefyd â'r effaith bod yr ardal o amgylch yr adeilad yn uwch na'r hyn sydd o'i gwmpas felly nid yw cael gwared ar yr adeiladau yn creu lefel wreiddiol y tir yn gyfan gwbl.</p>

**Ffigur 4: D3. AMRYWIAETH: Map ffactor Amrywiaeth Strwythurol (Garwder)**




**E1. EHANGDER: Maint y Clytiau Cynefin Lled-naturiol**

Categori DECCA	<b>EHANGDER</b>
Disgrifiad Gwreiddiol	Dadansoddiad o Gam 1 a gwybodaeth arall am gynefinoedd presennol i fapio maint ac ehangder a/neu faint lleiniau cynefinoedd lled-naturiol a/neu gynefinoedd blaenoriaeth.
Dulliau	Ar gyfer y ffactor hwn, cyfunwyd yr holl fathau o gynefinoedd lled-naturiol o haen Cam 1 yn un polygon, ac yna eu holli eto, gan gyfuno lleiniau o dir cyfagos. Cyfrifwyd arwynebedd pob polygon yn yr haen cynefin lled-naturiol newydd a defnyddiwyd y ffigur hwn i roi maint pob sgwâr adrodd (10m).
Sylwadau	Roedd y ffactor maint yn y dadansoddiad CuRVe yn seiliedig ar gyfran y cynefin lled-naturiol ym mhob sgwâr 1km. Yn y prosiect hwn lle'r oedd angen data eglurder uwch, roedd y sgwâr samplu yn 10m yn lle 1km. Byddai adio'r gyfran o gynefin lled-naturiol mewn sgwâr 10m i bob pwrpas yn ddim ond adrodd lle'r oedd cynefinoedd lled-naturiol yn digwydd yn hytrach nag arwydd o faint y cynefinoedd hynny. Yn lle hynny, datblygwyd y ffactor hwn i ganiatáu sgorau uwch ar gyfer sgwariau adrodd 10m a oedd yn croestorri ag ardaloedd mawr o gynefinoedd lled-naturiol, felly yn gwneud mwy na dim ond adlewyrchu bod sgwariau adrodd yn cael eu meddiannu gan gynefin lled-naturiol. Mae'r ffactor hwn yn dibynnu ar y data cynefinoedd gorau sydd ar gael, ac felly mae defnyddio Cam 1 1997 yn golygu cyfyngiad.

Gan mai dim ond un Ffactor Ehangder a ddatblygwyd, sylwch fod y map Priodoledd Ehangder “cyfunol” yr un fath â'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer **E1. EHANGDER: Map ffactor Maint y Clytiau Cynefin Lled-naturiol**




**Ffigur 5: E1. EHANGDER: Map ffactor Maint y Clytiau Cynefin Lled-naturiol**



**CD1. CYFLWR: Cyflwr Safleoedd Statudol**

Categori DECCA	CYFLWR
Disgrifiad Gwreiddiol	Dadansoddi a mapio unrhyw wybodaeth bresennol am gyflwr y safle (mae'n debyg ei fod yn bodoli'n bennaf ar gyfer safleoedd Natura 2000, SoDdGA, tir sy'n eiddo i bartneriaid a gwarchodfeydd natur). Dadansoddiad o'r gyfran o dir sy'n cael ei chydabod fel tir o werth natur uchel ac sy'n cael ei gwarchod rhag datblygiad, fel mesur procsi o gyflwr, gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a gedwir gan CCALLau.
Dulliau	Derbyniwyd data Monitro Cyflwr Safonol gan CNC ar gyfer safleoedd ACA, AGA a SoDdGA o fewn ardal yr astudiaeth. O fewn y gwaith hwn, aseswyd pob nodwedd, a'i sgorio fel sgôr ddisgrifiadol, o Ffafriol: Wedi'i Adfer i Wedi'i Ddinistrio: Yn Rhannol. Rhoddwyd sgôr i bob un o'r disgrifiadau asesu hyn, gyda'r set uchaf yn 7, yr isaf i 1. Rhoddwyd y gwerth canolrif o 3.5 i nodweddion na chawsant eu hasesu yn y canlyniadau hyn. I gael sgôr ar gyfer pob safle cyfrifwyd y cyfartaledd. Gyda'r haen SoDdGA, rhoddwyd pwysiad ychwanegol i nodweddion lle'r oedd hyder uchel yn y cyflwr o gymharu â'r rhai lle'r oedd yr hyder yn isel. Er bod y sgôr cyflwr nodwedd swyddogol yn cael ei ddefnyddio yn y rhan fwyaf o achosion, cawsom arbenigwyr lleol i helpu i wella rhai o'r nodweddion a restrwyd fel rhai 'anhysbys'.
